14. Derbyniadau

Mae'r bennod hon yn egluro'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â derbyniadau i ysgolion a chyfrifoldebau'r corff llywodraethu a'r ALl ym mhob un o feysydd cyfraith derbyniadau.

Fframwaith Deddfwriaethol

1. Nododd Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ("Deddf 1998"), ynghyd â'r rheoliadau a restrir ar ddiwedd y bennod hon, y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer derbyn disgyblion i ysgolion. Hefyd, daeth Cod Derbyniadau i Ysgolion statudol newydd i rym ar 15 Gorffennaf 2009. Mae hyn yn gosod gofynion ac yn rhoi cyfarwyddyd i ALlau ac awdurdodau derbyn eraill (gweler paragraff 7 isod) ar y gyfraith, ac ar yr egwyddorion arweiniol ar gyfer gweinyddu derbyniadau i ysgolion. Rhaid i bawb sy'n gweinyddu trefniadau derbyn gyfeirio at y Cod.

2. Lle mae gofyniad gorfodol yn cael ei osod gan y Cod (neu gan ddarpariaethau statudol), mae'r Cod yn nodi bod yn **"rhaid"** i'r cyrff perthnasol gydymffurfio â'r gofyniad neu'r ddarpariaeth benodol. Lle mae'r Cod yn gwahardd arferion neu feini prawf, mae'r Cod yn nodi **"na cheir"** eu defnyddio. Mae'r Cod hefyd yn cynnwys canllawiau arferion da y **"dylai'r"** cyrff perthnasol eu dilyn. Fodd bynnag, lle mae'r canllawiau'n cyfeirio at arferion neu feini prawf a ystyrir yn arfer gwael fel arfer, mae'r Cod yn nodi **"na ddylid"** eu defnyddio.

3. Daeth Cod statudol ar Apelau Derbyn i Ysgolion hefyd i rym ar 15 Gorffennaf 2009.

4. Dim ond gwybodaeth sylfaenol y mae'r rhan hon o'r Canllaw yn ei rhoi ar rai o'r elfennau allweddol o dderbyn disgyblion. Rhaid eu darllen ar y cyd â'r Cod Derbyniadau i Ysgolion a'r Cod Apelau Derbyniadau i Ysgolion, adrannau perthnasol o Ddeddf 1998 a Rheoliadau cysylltiedig ar dderbyniadau a'r ddeddfwriaeth a restrir isod. Bydd angen i gyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig roi sylw arbennig i'r Codau gan eu bod yn awdurdodau derbyn ar gyfer eu hysgolion.

VA
F

Cyfrifoldeb am Dderbyn i Ysgolion

5. Rhaid i rieni plant rhwng 5 a 16 oed sicrhau bod eu plant yn derbyn addysg llawn amser briodol ac mae cyfrifoldeb ar yr ALlau i sicrhau bod rhieni'n cyflawni'r ddyletswydd hon. Mae plentyn yn cyrraedd oedran ysgol gorfodol ar ddechrau'r tymor sy'n dilyn ei bumed pen-blwydd. Rhaid i'r ALlau hefyd sicrhau bod digon o le i'r plant yn ysgolion eu hardal a chymryd camau i gywiro unrhyw ddiffygion.

6. Awdurdodau derbyn sy'n gyfrifol am bob elfen o dderbyn i ysgolion, gan gynnwys pennu trefniadau derbyn a phenderfynu ar geisiadau. O ran ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir, yr ALl yw'r awdurdod derbyn sy'n gyfrifol am bob elfen o dderbyniadau i ysgolion (ac eithrio lle

mae'r ALl wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb hwn i'r corff llywodraethu ar ôl iddynt gytuno i hynny). Mae'n rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion o'r fath, yn ôl y gyfraith, weithredu penderfyniadau'r ALl ar geisiadau unigol a gweithredu'n unol â threfniadau derbyn yr ALl. Os ydynt yn gwrthod, gall yr ALl gyfeirio'r mater at Weinidogion Cymru, a allai fynnu bod y corff llywodraethu yn cydymffurfio â phenderfyniad yr ALl o dan Adran 496 neu Adran 497 o Ddeddf Addysg 1996. Fodd bynnag, gall y corff llywodraethu apelio i banel apelio annibynnol os bydd yr ALl wedi penderfynu derbyn disgybl sydd wedi'i wahardd yn barhaol o ddwy ysgol arall neu fwy.

7. Y corff llywodraethu yw'r awdurdod derbyn mewn ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir. Gall y corff llywodraethu ddirprwyo ei swyddogaethau sy'n ymwneud â threfniadau derbyn i bwyllgor (ond nid unigolyn) a fydd yn gweinyddu'r broses dderbyn fel y pennir gan y corff llywodraethu. Ystyrir ei bod yn arfer da penodi'r pennaeth i bwyllgor derbyniadau, ond nid oes gan benaethiaid swyddogaeth unigol o ran derbyniadau ac ni allant weithredu yn lle'r corff llywodraethu wrth bennu polisi derbyn yr ysgol, neu wrth benderfynu ar dderbyn unrhyw blentyn unigol.

VA
F

Ymgynghori ar y Trefniadau Derbyn Arfaethedig

8. Mae'n rhaid i awdurdodau derbyn mewn ardal (gan gynnwys cyrff llywodraethu ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a reolir sydd â chyfrifoldeb dirprwyedig am dderbyniadau) ymgynghori â'i gilydd, gan ofyn am farn a sylwadau ar bob elfen o'u trefniadau derbyn arfaethedig, gan gynnwys y nifer i'w derbyn, cyn pennu'r trefniadau y bwriadant eu defnyddio. Mae'r Cod Derbyniadau yn rhoi manylion y cyrff y mae'n rhaid i ALlau ac awdurdodau derbyn eraill ymgynghori â hwy. Anogir pob awdurdod derbyn i ysgol a gynhelir wrando ar farn rhieni cyn pennu eu trefniadau derbyn.

9. Dylid ymgynghori ar drefniadau derbyn arfaethedig o fewn ardal a elwir yn "ardal berthnasol" (Rheoliadau Addysg (Meysydd Perthnasol i Ymgynghori â hwy ynglŷn â Threfniadau Derbyn) 1999) . Mae'r ALl yn pennu'r ardal berthnasol ar ôl ymgynghori'n briodol â'r awdurdodau derbyn eraill yn yr ardal ac unrhyw ALlau cyfagos. Efallai y bydd mwy nag un ardal berthnasol o fewn ffiniau'r ALl. Dylai ALlau ymgynghori ar ac adolygu eu hardaloedd perthnasol bob dwy flynedd.

10. Dylid cwblhau'r ymgynghori ar drefniadau derbyn erbyn 1 Mawrth yn yr ysgol sy'n dechrau dwy flynedd cyn y flwyddyn ysgol y bydd y trefniadau'n cael eu gweithredu. Ar ôl hyn, mae'n rhaid i awdurdodau derbyn bennu eu trefniadau derbyn erbyn 15 Ebrill, gan hysbysu pawb y maent wedi ymgynghori â hwy. Gellir gwneud hyn ar e-bost. Nid yw'n ddigon i awdurdodau derbyn roi unrhyw drefniadau arfaethedig neu drefniadau wedi'u pennu ar eu gwefan yn unig.

11. Mae'n ofynnol i ALlau ymgynghori bob blwyddyn. Bob tair blynedd yn unig y mae'n rhaid i ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a gynorthwyir (neu gorff llywodraethu ysgol gymunedol neu ysgol wirfoddol a reolir gyda chyfrifoldeb dirprwyedig am dderbyniadau) ymgynghori:

VA F

- os yw'r corff llywodraethu yn cynnig yr un trefniadau derbyn ag y pennwyd yn y 2 flynedd bennu flaenorol;
- na chyflwynwyd gwrthwynebiad i Weinidogion Cymru am y trefniadau derbyn a gynigiwyd gan y corff llywodraethu yn ystod y pum mlynedd flaenorol.

Hysbysu a Chyhoeddi Gwybodaeth

12. Mae'n rhaid i awdurdod derbyn anfon hysbysiad ysgrifenedig, o fewn 14 diwrnod o bennu ei drefniadau derbyn, i bawb yr oedd yn ofynnol iddo ymgynghori â hwy. Lle mae'r awdurdod derbyn wedi pennu nifer derbyn ar gyfer grŵp oed perthnasol sy'n is na'r nifer a nodir ar y pryd ar gyfer y grŵp oed hwnnw (gweler paragraff 25-28) neu lle mae'r trefniadau derbyn yn darparu ar gyfer dethol disgyblion yn rhannol yn ôl gallu (gweler paragraff 34), mae'n rhaid cyhoeddi'r rhain mewn papur newydd lleol o fewn 14 diwrnod o bennu'r nifer hwnnw. Mae'n rhaid i'r manylion a gyhoeddir gynnwys esboniad o hawliau rhieni i gyflwyno gwrthwynebiad i Weinidogion Cymru am drefniadau dethol o'r fath neu dderbyn nifer is. Dylai'r awdurdod derbyn ymgynghori â rhieni a phartïon eraill â budd am y bwriad i dderbyn nifer is.

Gwrthwynebiadau i Dderbyniadau i Ysgolion

13. Ac eithrio os mai'r rheswm am y gwrthwynebiad yw ceisio cael newid i'r trefniadau derbyn y gellir ond ei wneud drwy gyhoeddi cynigion statudol (er enghraifft, cyflwyno bandio disgyblion neu dderbyn un rhyw), gall corff llywodraethu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a gynorthwyir gyflwyno gwrthwynebiad i Weinidogion Cymru am unrhyw elfen o drefniadau derbyn awdurdodau derbyn eraill yn eu hardal ymgynghori berthnasol eu hunain. Ni all cyrff llywodraethu ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir wrthwynebu trefniadau derbyn ysgolion eraill sy'n awdurdod derbyn eu hunain yn yr ardal ymgynghori berthnasol oni bai fod gan yr Ysgolion Sirol a'r Ysgolion Gwirfoddol a Reolir awdurdod dirprwyedig dros drefniadau derbyn. Gallant gyflwyno gwrthwynebiad i Weinidogion Cymru am y nifer a fydd yn cael eu derbyn sydd wedi'i bennu gan yr ALl ar gyfer eu hysgol, ond nid i unrhyw elfen arall o drefniadau derbyn yr ALl ar gyfer ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir.

VA F

VC

14. Gall Gweinidogion Cymru hefyd glywed gwrthwynebiadau gan Rieni sy'n gymwys i wrthwynebu (gweler paragraff 2.18 y Cod ar Dderbyniadau) yn achos trefniadaeth dethol 'cynfodol', h.y. trefniadau ar gyfer dethol yn ôl gallu sydd wedi'u gweithredu ers dechrau blwyddyn ysgol 1997/98. Fodd bynnag, nid yw'r hawl hwn i wrthwynebu yn gymwys i fandio disgyblion neu dderbyniadau i chweched dosbarth. Gall rhieni cymwys hefyd wrthwynebu nifer derbyn arfaethedig ar gyfer unrhyw grŵp blwyddyn sy'n is na'r hyn a nodir gan y dull asesu gallu a nodir yn y ddogfen gyfarwyddyd "Mesur

Capasiti Ysgolion yng Nghymru” (gweler paragraff 2.17 y Cod Derbyn i Ysgolion).

Hysbysu Rhieni: Cyhoeddi Trefniadau Derbyn

15. Mae’n rhaid i bob ALl gyhoeddi prosbectws cyfansawdd blynyddol sy’n nodi’r trefniadau derbyn sydd wedi’u pennu (gan gynnwys amserlen ar gyfer y broses dderbyn sy’n nodi’r dyddiadau perthnasol ar gyfer derbyn a phennu ceisiadau ac ar gyfer derbyn apelau) ar gyfer pob ysgol a gynhelir yn ei ardal a sicrhau bod y trefniadau diweddaraf wedi’u cynnwys. Mae’n rhaid cyhoeddi’r prosbectws hwn cyn 1 Hydref yn ystod y flwyddyn ysgol cyn y flwyddyn ysgol y bydd y trefniadau derbyn yn gymwys iddi neu o fewn chwe wythnos cyn y dyddiad y gall rhieni fynegi eu dewis. Mae’n rhaid i awdurdodau derbyn heblaw am ALlau sicrhau eu bod yn rhoi copi o’u trefniadau derbyn i’r ALl perthnasol mewn da bryd fel y gall yr ALl gydymffurfio â’r gofynion cyhoeddi hyn.

Amrywio’r Trefniadau Derbyn sydd wedi’u Pennu

16. Ar ôl pennu trefniadau derbyn ar gyfer blwyddyn academaidd, ni ellir eu hamrywio ond o dan yr amgylchiadau canlynol:

a. bu newid sylweddol yn yr amgylchiadau;

b. camgymeriad gwirioneddol, ffaith wedi ei hepgor neu gamargraffu yn y trefniadau sydd wedi’u pennu, neu awdurdod derbyn wedi dod i wybod am arferion anghyfreithlon sydd wedi’u cynnwys yn ei drefniadau derbyn;

c. mae awdurdod derbyn yn credu bod angen diwygio ei drefniadau derbyn yng ngoleuni penderfyniad gan Weinidogion Cymru mewn perthynas ag ysgol arall sydd â’r un trefniadau derbyn yn union neu sy’n debyg iawn; neu

d. mae angen amrywio’r nifer derbyn sydd wedi’i bennu er mwyn gweithredu cynigion statudol a gymeradwywyd sydd wedi’u cyhoeddi o dan Adran 29 o Ddeddf 1998.

Yn achos a, b ac c uchod, rhaid i'r awdurdod derbyn yn gyntaf hysbysu'r amrywiad i'r sawl y mae'n ymgynghori â nhw ac yna cyfeirio'r mater at sylw Gweinidogion Cymru. Nid oes angen gwneud hyn os mai pwynt d sy'n berthnasol.

Dewis y Rhieni

17. Mae gan ALlau ddyletswydd benodol i wneud trefniadau arbennig fel y gall rhieni fynegi pa ysgol y byddai orau ganddynt i’w plant fynychu a rhoi rhesymau dros y dewis hwnnw. Mae’n rhaid i’r ALlau a chyrff llywodraethu pob ysgol gydymffurfio â dewis y rhieni ac eithrio o dan rai amgylchiadau penodol. Yn y rhan fwyaf o achosion, y rhesymau dros wrthod dewis y rhieni yw bod yr ysgol yn llawn, neu, mewn termau cyfreithiol, oherwydd y byddai cydymffurfio â dewis y rhieni yn ergyd i’r gallu i ddarparu addysg effeithiol neu

ddefnydd effeithiol o adnoddau (sy'n cynnwys amgylchiadau lle byddai derbyn yn anghydnaws â'r ddyletswydd i gyfyngu ar faint dosbarthiadau).

Ceir amgylchiadau eraill lle y bydd ALlau a chyrff llywodraethu yn gallu gwrthod cydymffurfio â dewis y rhieni yn cynnwys lle mae'r:

- plentyn wedi'i wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu fwy; ac i'r gwaharddiad diweddaraf ddigwydd yn y ddwy flynedd flaenorol; neu
- trefniadau ar gyfer derbyn yn gwbl seiliedig ar allu neu addasrwydd ac ni fyddai'n ymarferol felly cydymffurfio â dewis y rhieni.

D.S. Ers blwyddyn ysgol 2004-05, os yw'r rhieni yn dewis ysgol sydd â chymeriad crefyddol, mae'r awdurdod derbyn wedi methu â gwrthod derbyn ar y sail nad yw'r rhiant yn bodloni eu maen prawf enwadol os oes lleoedd ar gael yn yr ysgol.

Dyddiad Dychwelyd Cyffredin a Chyhoeddi Dyddiad Cynnig Cyffredin

18. Er mwyn sicrhau cysondeb rhwng awdurdodau derbyn ac osgoi dryswch ar ran rhieni, mae'n rhaid i bob awdurdod derbyn mewn unrhyw ardal awdurdod lleol yng Nghymru bennu dyddiad dychwelyd cyffredin ar gyfer ceisiadau cynradd a cheisiadau uwchradd ar gyfer y flwyddyn ddechrau arferol, ac mae'n rhaid iddynt anfon llythyrau penderfyniad ar ddyddiadau y cytunir arnynt ar ôl ymgynghori â phob awdurdod derbyn yn yr ardal. Gellir cytuno ar wahanol ddyddiadau cyffredin ar gyfer ceisiadau cynradd ac uwchradd. Dylai awdurdodau derbyn ymgynghori ag awdurdodau cyfagos drwy eu fforwm derbyn er mwyn cytuno ar ddyddiadau cyffredin lle mae hyn yn ymarferol.

Amserlen ar gyfer Ymgynghori, Pennu a Chyhoeddi Trefniadau Derbyn

Y dyddiad diweddaraf	Camau gweithredu
1 Mawrth bob blwyddyn	Pob awdurdod derbyn yn gorffen ymgynghori ar drefniadau derbyn arfaethedig ar gyfer ysgolion unigol (dylid neilltuo o leiaf fis ar gyfer ymgynghori).
15 Ebrill bob blwyddyn	Awdurdodau derbyn yn pennu trefniadau derbyn.
O fewn 14 diwrnod i'r dyddiad pennu	Awdurdodau derbyn yn rhoi manylion trefniadau derbyn sydd wedi'u pennu i ALlau a'r awdurdodau derbyn yr ymgynghorwyd â hwy. Awdurdodau derbyn yn cyhoeddi manylion yn y wasg leol unrhyw achosion o niferoedd derbyn sydd wedi'u pennu'n is na'r hyn a nodir yn ôl capasiti'r ysgolion a threfniadau derbyn dethol rhannol.
Dyddiad cau gofynnol gan ALl	Mae pob corff llywodraethu yn darparu gwybodaeth i'r ALl ar gyfer eu cofnod yn y

	prosbectws cyfansawdd.
1 Hydref bob blwyddyn neu o fewn chwe wythnos i'r dyddiad y gall rhieni fynegi eu dewis	ALl yn cyhoeddi prosbectws cyfansawdd.

Fforymau Derbyn

19. Mae'n rhaid i bob ALl gael Fforwm Derbyn. Mae aelodau craidd y Fforwm yn cynnwys aelodau a/neu swyddogion yr ALl; cynrychiolwyr ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir, cynrychiolwyr ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir; cynrychiolwyr rhiant-lywodraethwyr a'r rhai a enwebir gan esgobaethau perthnasol Pabyddol a'r Eglwys yng Nghymru. Hefyd, gall yr aelodau craidd enwebu aelodau eraill sy'n cynrychioli buddiannau unrhyw ran o'r gymuned leol.

20. Mae gan Fforymau Derbyn swyddogaeth allweddol yn sicrhau system dderbyn deg. Mae'r fforymau yn caniatáu i'r awdurdodau derbyn a phartïon allweddol eraill sydd â budd ddod at ei gilydd i drafod effeithlonrwydd trefniadau derbyn lleol, ceisio cytuno ar sut i ymdrin â materion derbyn anodd a chynghori awdurdodau derbyn ar ffyrdd o wella'u trefniadau. Mae eu tasgau'n cynnwys ystyried trefniadau derbyn cyfredol ac arfaethedig a pha mor dda y maent yn darparu ar gyfer buddiannau rhieni a phlant lleol, gan awgrymu gwelliannau i brosesau derbyn lle'n briodol. Dylent hefyd adolygu pa mor gynhwysfawr a hygyrch yw canllawiau ar gyfer rhieni. Mae'n rhaid i fforymau weithredu'n unol â'r Cod ac mae'n rhaid i awdurdodau derbyn ystyried unrhyw gyngor a gynigir gan y Fforwm.

21. Mae Fforymau hefyd yn gyfrifol am geisio hyrwyddo cytundebau ar drefniadau ar gyfer ymdrin ag amrywiaeth o faterion allweddol, gan gynnwys sut mae sicrhau bod y trefniadau derbyn yn darparu'n effeithiol ar gyfer plant a allai fod yn agored i niwed neu'r rhai hynny sy'n cyrraedd y tu allan i'r rownd dderbyn arferol.

Plant sy'n Derbyn Gofal

22. Mae'r rheoliadau yn mynnu bod awdurdodau derbyn yn rhoi'r flaenoriaeth gyntaf i blant sy'n derbyn gofal yn eu meini prawf ar gyfer gordanysgrifio. Mae rhai eithriadau a ganiateir i hyn:

- **Gall** awdurdodau derbyn ar gyfer ysgolion sydd â chymeriad crefyddol wedi'i ddynodi (ysgolion ffydd) roi blaenoriaeth gyntaf i bob plentyn sy'n derbyn gofal, p'un ai eu bod o'r ffydd honno neu beidio. Yr hyn sy'n ofynnol yw fod yn **rhaid** iddynt roi blaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal o'u ffydd hwy cyn unrhyw blant eraill o'u ffydd hwy, yna i blant sy'n derbyn gofal nad ydynt o'u ffydd o flaen eraill nad ydynt o'u ffydd.
- Mae'n rhaid i ysgolion sydd â threfniadau cynfodol ar gyfer dethol rhannol roi'r flaenoriaeth gyntaf i blant sy'n derbyn gofal sy'n

bodloni'r meini prawf gallu neu ddoniau cyn plant eraill sydd wedi'u dethol ar y sail honno. Mae gan blant sy'n derbyn gofal nad ydynt wedi derbyn lle ar sail eu gallu neu ddoniau flaenoriaeth uwch na phlant eraill fel hyn.

- Mae'n rhaid i ysgolion sy'n dethol ar sail bandio plant roi'r flaenoriaeth gyntaf i blant sy'n derbyn gofal o fewn pob band dros blant sy'n gymwys am le yn y band hwnnw.

23. Y tu allan i'r rownd dderbyn arferol, mae Rheoliadau Addysg (Derbyn Plant sy'n Derbyn Gofal) (Cymru) 2009 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau derbyn i dderbyn plant sy'n derbyn gofal os yw rhiant corfforaethol yn gwneud cais i'w derbyn ar eu rhan. Fodd bynnag, cyn gwneud cais, mae'n rhaid i'r rhiant corfforaethol (h.y. yr ALl sy'n gyfrifol am ofalu am y plentyn) ymgynghori â'r awdurdod derbyn perthnasol (ac yn achos plentyn sy'n derbyn gofal sydd wedi'i wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu fwy, corff llywodraethu'r ysgol gymunedol neu'r ysgol wirfoddol a reolir berthnasol) a gwneud pob ymdrech i sicrhau priodoldeb yr ysgol a enwir yng ngoleuni cefndir ac anghenion y plentyn.

Maint Dosbarthiadau Babanod

24. Yn amodol ar eithriadau prin, ni all dosbarth plant 5 i 7 oed (h.y. derbyn, blynyddoedd 1 a 2) gydag un athro/athrawes gynnwys mwy na 30 disgybl. Gall awdurdodau derbyn wrthod derbyn plentyn ar y sail y byddai'n achosi dosbarthiadau o faint anffafriol. Mae dosbarthiadau o faint anffafriol yn digwydd pan fydd derbyn plentyn i'r ysgol yn golygu nad yw'r awdurdod derbyn yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ar faint dosbarthiadau babanod oni bai ei fod yn cymryd mesurau cymhwyso, h.y. yn adeiladu ystafell ddosbarth ychwanegol a/neu'n cyflogi athro/athrawes ychwanegol. Fodd bynnag, mewn perthynas â'r flwyddyn dderbyn arferol (h.y. y flwyddyn Dderbyn) ni ellir dweud bod rhagfarn o'r fath yn codi oni bai bod y nifer yn uwch na nifer derbyn yr ysgol. Mewn perthynas â blynyddoedd 1 a 2, ni ddylai awdurdodau derbyn wrthod derbyn ar sail rhagfarn maint dosbarth fel arfer, oni bai bod y nifer yn uwch na nifer derbyn yr ysgol.

Niferoedd Derbyn

25. Cafodd Deddf Addysg 2002 wared ar yr angen i ysgolion nodi'r nifer isaf o ddisgyblion y byddent yn eu derbyn yn y flwyddyn dderbyn arferol drwy gyfrwng "niferoedd safonol" y gellid ond eu newid drwy gyhoeddi cynigion statudol. Yn hytrach, bydd awdurdodau derbyn yn dibynnu ar nifer derbyn a gyhoeddir sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chapasiti'r ysgol ac sy'n cael ei bennu gan yr awdurdod ar ôl ymgynghori'n lleol ar drefniadau derbyn.

26. Mae'n rhaid i ysgol gael nifer derbyn ar gyfer pob grŵp oed "perthnasol". Diffinnir grŵp oed perthnasol gan y gyfraith fel "grŵp oed y mae disgyblion yn cael eu derbyn, neu'n cael eu derbyn fel arfer, i'r ysgol dan sylw". Efallai y bydd angen i rai ysgolion gael mwy nag un nifer derbyn. Er enghraifft, lle mae gan ysgol uwchradd chweched dosbarth a'i bod yn derbyn disgyblion eraill o ysgolion eraill yn 16 oed, bydd angen nifer derbyn ar

gyfer Blwyddyn 12 yn ogystal ag ar gyfer Blwyddyn 7. Ym mhob achos, mae'n rhaid i niferoedd derbyn gyfeirio at ddisgyblion a fydd yn cael eu derbyn i'r ysgol am y tro cyntaf. Ni ddylent gynnwys disgyblion sy'n cael eu trosglwyddo o grwpiau oed iau. Un eithriad yw ysgol gynradd sy'n cynnig darpariaeth meithrin, y nifer derbyn yn yr achos hwnnw fydd nifer yr holl blant sydd i'w derbyn i'r Flwyddyn Dderbyn, gan nad yw plant yn trosglwyddo'n awtomatig o ddosbarth meithrin i ddosbarth derbyn os yw'r ysgol wedi eu gordanysgrifio.

27. Wrth bennu niferoedd derbyn, dylid ystyried asesiad o gapasiti'r ysgol. Capasiti'r ysgol yw'r nifer o leoedd sydd ar gael i ddisgyblion. Cyfrifir hyn drwy'r dull asesu a nodir yn y ddogfen gyfarwyddyd Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru. Ni ddylid derbyn mwy o ddisgyblion na'r nifer a gyhoeddir ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol.

28. Gall awdurdod derbyn bennu nifer derbyn ar gyfer grŵp oed perthnasol sy'n is na'r hyn a nodir gan y fformiwla capasiti, ond os yw'n gwneud hynny, mae'n rhaid iddo gyhoeddi gwybodaeth i rieni a allai wrthwynebu'r nifer is hwn.

Apelau Derbyniadau

29. Mae'n ofynnol i awdurdodau derbyn sefydlu paneli apêl annibynnol: gall rhieni apelio atynt yn erbyn gwrthod derbyn plentyn i ysgol. Os yw'r cais am le mewn chweched dosbarth mae gan y rhiant a'r person ifanc yr hawl i apelio os gwrthodir lle.

VA
F

Yn achos ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, mae'r ddyletswydd hon i sefydlu panel apêl yn disgyn ar ysgwyddau'r corff llywodraethu fel yr awdurdod derbyn. Gydag ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir, cyfrifoldeb yr ALl yw hyn hyd yn oed os yw'r corff llywodraethu wedi dirprwyo cyfrifoldeb dros dderbyniadau.

Er mai llywodraethwyr ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir sy'n gyfrifol am sefydlu paneli apêl derbyn, mae aelodaeth y panel yn annibynnol ar gorff llywodraethu'r ysgol a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol i wrthod lle, yn ogystal ag ar yr ALl sy'n cynnal yr ysgol.

Os yw panel yn dyfarnu o blaid y rhiant, mae'n rhaid i'r awdurdod derbyn gydymffurfio â'r penderfyniad. Os mai'r Awdurdod Lleol yw'r awdurdod derbyn, rhaid i gorff llywodraethu'r ysgol gydymffurfio.

30. Mae'r Rheoliadau Trefniadau Apelau Derbyn yn nodi pwy ddylai fod yn rhan o'r paneli ac yn nodi dyletswydd awdurdod derbyn i hysbysebu am aelodau lleyg bob tair blynedd o leiaf. Nodir manylion trefniadau apelio yn y Cod Apelau Derbyniadau Ysgolion newydd.

31. Gall llywodraethwyr ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir wneud trefniadau apelio ar y cyd gyda'u ALl a chydag ysgolion eraill o'r fath. Cyfrifoldeb yr awdurdod derbyn yw recriwtio a hyfforddi aelodau paneli apêl.

VA
F

32. Mae gan gyrff llywodraethu ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad ALl i dderbyn plentyn i'r ysgol sydd wedi'i wahardd yn barhaol ddwywaith yn ystod y ddwy flynedd sy'n dechrau ar ddyddiad y gwaharddiad diweddaraf. Mae canllawiau pellach ar yr apelau hyn yn y Cod Apelau.

Rhestrau Aros

33. Mae'n ofynnol i awdurdodau derbyn gadw rhestr aros ar gyfer ysgolion sydd wedi eu gordanysgrifio, ac mae manylion y rhain ar gael yn y Cod Derbyniadau Ysgolion. Mae'n rhaid cynnig lleoedd a allai fod ar gael i'r rhai hynny ar y rhestr aros yn unol â threfniadau derbyn yr ysgol a gyhoeddwyd. Os oes gan ymgeiswyr newydd flaenoriaeth uwch o dan y meini prawf gordanysgrifio, dylid eu gosod yn uwch na'r rhai hynny sydd wedi bod ar y rhestr am gryn amser. Nid yw rhoi enw plentyn ar restr aros yn effeithio ar hawl y rhieni i apelio yn erbyn cais aflwyddiannus.

Dethol Rhannol

34. Mae Deddf 1998 yn atal cyflwyno trefniadau dethol academaidd newydd ac eithrio o dan amgylchiadau cyfyngedig chweched dosbarth ac i gyflwyno trefniadau bandio teg. Gellir parhau i ddefnyddio'r trefniadau dethol rhannol cyfredol ar sail gallu academaidd a bwrw eu bod wedi cael eu gweithredu ar ddechrau blwyddyn ysgol 1997-8.

Derbyniadau i Ysgolion Meithrin

35. Yn gyffredinol, nid yw'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol mewn perthynas â derbyniadau i ysgolion cynradd ac uwchradd yn berthnasol i ysgolion meithrin neu i blant a dderbynnir i ddosbarth meithrin ysgol a gynhelir. Fodd bynnag, mae diwygiadau a wnaed gan Ddeddf Addysg 2002 yn nodi mai'r corff llywodraethu sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau am dderbyniadau i'r dosbarth meithrin yn achos ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a reolir, ac yn yr ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir hynny sydd â chyfrifoldeb dirprwyedig dros dderbyniadau. Yr ALl sy'n gyfrifol am benderfynu ar dderbyniadau i ddosbarthiadau meithrin mewn ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir eraill.

VA F

36. Dylai'r awdurdod derbyn bennu trefniadau derbyn ar wahân ar gyfer y dosbarth meithrin. Nid yw lle mewn dosbarth meithrin yn sicrhau lle mewn dosbarth derbyn. Mae'r cyfyngiad ar faint dosbarthiadau babanod ond yn berthnasol i ddosbarthiadau mewn ysgolion a gynhelir sy'n cynnwys disgyblion lle mae'r mwyafrif yn cyrraedd pump, chwech a saith oed yn ystod y flwyddyn ysgol. Felly, ni fydd y cyfyngiad ar faint dosbarthiadau babanod yn berthnasol i ddosbarthiadau meithrin lle mae'r mwyafrif o ddisgyblion sy'n mynychu'r dosbarth hwnnw yn iau na phump oed.

Y Gyfraith

Deddf Plant 1989

Gorchymyn Dynodi Ysgolion Sydd â Chymeriad Crefyddol (Cymru) 2007
Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995
Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005
Cod Ymarfer y Comisiwn Hawliau Anabledd
Deddf Addysg 1996
Deddf Addysg 2002
Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006
Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005
Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Diwygio) (Cymru) 2009
Rheoliadau Addysg (Derbyn Plant sy'n Derbyn Gofal) (Cymru) 2009
Rheoliadau Addysg (Meysydd Perthnasol i Ymgynghori â Hwy Ynglŷn â Threfniadau Derbyn) 1999
Rheoliadau Addysg (Fforymau Derbyn) (Cymru) 2003
Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006
Rheoliadau Addysg (Maint Dosbarthiadau Babanod) (Diwygio) (Cymru) 2009
Rheoliadau Addysg (Maint Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) 1998
Rheoliadau Addysg (Gwrthwynebiadau i Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006
Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 2002
Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004
Gorchymyn Addysg (Dechrau Oedran Ysgol Gorfodol) 1998
Deddf Cydraddoldeb 2006
Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005
Deddf Hawliau Dynol 1998
Rheoliad Mewnfudo (Ardal Economaidd Ewropeaidd) 2006
Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru
Rheoliadau Ysgolion Newydd (Derbyniadau) (Cymru) 2006
Rheoliadau Lleoli Plant a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2007
Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000
Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976
Gorchymyn Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (Dyletswyddau Statudol) 2001
Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998
Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975

Canllawiau

Mae dogfennau allweddol sy'n darparu canllawiau manylach ar drefniadau derbyn yn cynnwys:

Cod Derbyn i Ysgolion
Cod Apelau Derbyn i Ysgolion

Mae'r dogfennau hyn ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru (www.cymru.gov.uk).

Mae copïau o'r Codau ar gael gan:

Y Gangen Trefniadaeth a Derbyniadau Ysgolion
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
3ydd Llawr

Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 6562